



CHAPTER

Film Audience Network
Supported by The National Lottery

Film Hub Wales
Canolfan Ffilm Cymru

# ADOLYGIAD O GEFNOGAETH FFILMIAU CYMREIG


Ers ein lansio yn 2013, mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) wedi dathlu ein hunaniaeth, iaith a'n diwylliant Cymreig trwy ffilm. Wrth inni nesau at BFI2022, rydym wedi bod yn myfyrio ar ein cefnogaeth i ffilmiau Cymreig, siarad gyda'n partneriaid mewn dosbarthu, arddangos a chynhyrchu i adolygu'r hyn rydym yn ei wneud a darganfod ffyrdd o gael rhagor o ffilmiau Cymreig allan i gynulleidfoaedd yn y dyfodol.




**cyfartaledd o ffilmiau Cymreig sy'n cael eu rhyddhau bob blwyddyn**




**o ffilmiau Cymreig a gefnogwyd gan FHW ers 2013**




**ffilmiau a gefnogwyd gan FHW na fydden nhw fel arall wedi cael eu rhyddhau yn theatrig**






# ADOLYGAD O GEFNOGAETH FFILMIAU

65 ffilm. 3 pecyn o ffilmiau byr wedi'u curadu. 9 arall (archif etc.)

Sgyrsiau rheolaidd gyda phartneriaid a dosbarthwyr am ffilmiau sydd i ddod, yn cynnwys ICO, Ffilm Cymru, Comisiwn Sgrin Cymru, NSSAW, BFI, Bafta, BFI Net. Work, Verve a Soda



Tri prif deitl gyda chefnogaeth: Dark Horse (2015), American Interior (2014), Svengali (2013)

Caiff ffilmiau Cymreig eu hyrwyddo'n rheolaidd trwy ragddangosiadau, newyddlenni a rhagor (gweler y dudalen gefn)

> Pe bai yna ffilm gyda ffocws Cymreig fe fyddwn yn neidio at y cyfle i weithio gyda Chanolfan Ffilm Cymru eto [...] Roedden nhw'n agored iawn, yn cyfathrebu'n dda. Doedden nhw ddim yn anelwig ynghylch beth roedden nhw eisiau roedden nhw'n frwdfrydig iawn am yr holl brosiect ac mae'n llawer haws cael sgwrs pan fydd pobl yn gwneud hynny, i weld beth ydy'r weledigaeth a sut y gallwch greu partneriaeth.
>
> ***- Dosbarthwr***

# CEFNOGAETH A RODDWYD I BROSIECTAU FFILMIAU CYMEIG




**wedi'i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn prosiectau ffilmiau Cymreig**




**prosiectau/dangosiadau a gefnogwyd**





**gwahanol aelodau FHW sydd wedi derbyn cefnogaeth ffilmiau Cymreig**




**1 o bob 10 dangosiad yn cynnwys Holi ac Ateb**




**Mae nifer o brosiectau eraill FHW yn hyrwyddo ffilmiau Cymreig (Roald Dahl ar Ffilm, Off Y Grid)**



**Mae pedwar pecyn ffilm wedi'u cynnig**



**Dadansoddiad prosiect: 61% dangosiadau sengl, 22% 2-5 teitlau, 17% tymhorau hirach**

“Fyddwn i ddim wedi dangos ffilm Gymraeg heb gefnogaeth y Ganolfan oherwydd dydy’r ardal yma ddim yn ardal Gymraeg ei hiaith. Fe wnaethom gynnal arolygon i weld pa ganran o’r gynulleidfa oedd yn siarad Cymraeg a fuaswn i fyth wedi gwneud hynny […] Cefnogaeth Canolfan Ffilm Cymru wnaeth annog hynny.”

*- Arddangoswr*

# CYNULLEIDFAOEDD A DIGWYDDIADAU




**presenoldeb mewn dangosiadau a digwyddiadau Cymreig gyda chefnogaeth FHW**




**digwyddiadau Cymraeg a gefnogwyd gan y FHW**




**derbyniadau cyffredinol i ffilmiau Cymreig 2013-17 (yn cynnwys Pride)**

“Rwy’n bendant yn falch bod FHW yn bodoli. Maen nhw wedi bod yn gefnogol iawn inni ac mae hynny’n wych ac [...] maen nhw wedi gwneud inni fynd i gyfeiriad ychydig yn newydd o ran rhaglennu.”

*- Arddangoswr*

# CEFNOGAETH Y GANOLFAN WEDI GWELLA CYNULLEIDFAOEDD I

Gwaith Cymreig a ddosbarthwyd

**+23%**

Teitlau Cymraeg

**+14%**

Ffilmiau wedi’u rhyddhau am gyfnod cyfyngedig

**+8%**

“[Os oes] cyfle i’r gynulleidfa deimlo ei fod yn ddigwyddiad bywiog, gwahanol, yna fe fyddaf yn ei gefnogi bob amser ac rwy’n credu bod Canolfan Ffilm Cymru yn sylweddoli bod yr elfennau ychwanegol hynny yn bwysig i’r gynulleidfa hefyd.”

*- Arddangoswr*

# CEFNOGAETH FHW TRWY GYDOL Y FLWYDDYN I FFILMIAU CYMREIG

Yn ogystal â'n galwad am brosiectau ffilmiau Cymreig, rydym yn gweithio trwy gydol y flwyddyn ar y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo ffilmiau Cymreig:

**Catalog ar-lein Gwnaethpwyd yng Nghymru**

**Pecynnau wedi'u curadu**

**Newyddlenni hyrwyddo**

**Ystafell rhagddangosiadau ffilmiau ar-lein**

**Dyddiau rhagddangosiadau ffilm ar draws Cymru**

**Rhwydwaith Rhaglenwyr Ifanc DU gydag adborth ffilmiau Cymreig**

> "Mae'n amlwg os ydych yn hyrwyddo ffilmiau Cymreig mae'n fwy o flaenoriaeth [ei gweld o flaen llaw] oherwydd fe fydd pobl yn disgwyl i chi wybod [...] Mae Canolfan Ffilm Cymru yn gwneud hynny, mae'n rhoi cyfle i chi wybod cymaint a chyfranogi yn gynnar gyda'r ffilmiau yma er mwyn helpu i'w hyrwyddo hefyd."
>
> ***- ffurflen werthuso prosiect FHW, 2015***

# BETH RYDYM YN EI WNEUD NESAF

- Rydym yn adolygu ein strategaeth ffilmiau Cymreig i sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud gyda phartneriaid ac yn cynnig y gefnogaeth gywir,
- Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn Ffilm Cymru, Comisiwn Sgrin Cymru ac eraill i ehangu ein tudalennau ffilmiau Cymreig trwy ychwanegu gwybodaeth am gysylltiadau Cymreig lleol a ffilmiau sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu,
- Rydym yn gweithio gyda chysylltiadau mewn cynhyrchu a dosbarthu i gynnig dolenni i ddangoswyr preifat o flaen llaw lle mae'n bosibl a rhagor o ddyddiau rhagddangosiadau,
- Rydym yn diweddaru ein gwefan, yn marchnata deunyddiau ac yn cyfarfod partneriaid i sicrhau bod y diwydiant a chynulleidfaoedd yn gwybod lle i fynd i gael yr wybodaeth angenrheidiol gennym,
- Rydym yn parhau i weithio gydag Into Film a Rhwydaith Rhaglenwyr Ifanc FAN i hyrwyddo ac adolygu ffilmiau Cymreig.

> "Yr hyn mae'r ffilmiau [yma] angen ydy ymgysylltiad diwylliannol a gwelededd."
>
> **Gwneuthurwr ffilm**

**Ymchwil gan Bigger Picture Research - www.biggerpictureresearch.net**

**www.canolfanffilmcymru.org | lisa@filmhubwales.org | /filmhubwales | @filmhubwales**